OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 2879 (Cy.249)

# GWASANAETHAU CYMORTH GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *2 Tachwedd 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *3 Tachwedd 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 22(5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**):

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2004.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 3 Tachwedd 2004.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992(**3**).

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Diwygio rheoliad 2 o'r Prif Reoliadau

**2.** Ym mharagraff (1) o reoliad 2 o'r Prif Reoliadau (dehongli), mewnosoder y canlynol yn ôl trefn yr wyddor—

> ""the health service" has the same meaning as in section 128(1) of the National Health Service Act 1977(**4**)

(**1**) 1948 p. 29; diwygiwyd adran 22(5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 gan adran 39(1) o Ddeddf y Weinyddiaeth Nawdd Cymdeithasol 1966 (p.20) a pharagraff 6 o Atodlen 6 iddi, gan adran 35(2) o Ddeddf Budd-daliadau Atodol 1976 (p.71) a pharagraff 3(b) o Atodlen 7 iddi, gan adran 20 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1980 (p.30) a pharagraff 2 o Atodlen 4 iddi, a chan adran 86 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1986 (p.50) a pharagraff 32 o Atodlen 10 iddi.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22(5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 1992/2977; ac O.S. 1996/602, O.S. 2002/814 (Cy.94) ac O.S. 2003/897 (Cy. 117) yw'r offerynnau diwygio perthnasol.

(**4**) 1977 p.49.

**Diwygio Atodlen 3 i'r Prif Reoliadau (Symiau sydd i'w diystyru wrth gyfrifo incwm ac eithrio enillion)**

**3.** Ar ôl paragraff 28I o Atodlen 3 i'r Prif Reoliadau, mewnosoder y paragraff a ganlyn—

"**28J.** Any payment made to the resident under section 63(6)(b) of the Health Services and Public Health Act 1968 ("the 1968 Act")(**5**) (travelling and other allowances to persons availing themselves of instruction) for the purpose of meeting child care costs where the instruction is provided pursuant to—

(a) section 63(1)(a) of the 1968 Act; or

(b) section 63(1)(b) of the 1968 Act and where the resident is employed, or has it in contemplation to be employed, in an activity involved in or connected with a service which must or may be provided or secured as part of the health service.".

**Diwygio Atodlen 4 i'r Prif Reoliadau (Cyfalaf sydd i'w ddiystyru)**

**4.** Yn Atodlen 4 i'r Prif Reoliadau, ar ôl paragraff 24, ychwaneger y paragraffau a ganlyn—

"**25.** Any payment made to the resident under section 2 or 3 of the Age-Related Payments Act 2004 (entitlement: basic or special cases)(**6**).

**26.** Any payment made to the resident under section 63(6)(b) of the Health Services and Public Health Act 1968 ("the 1968 Act")(**5**) (travelling and other allowances to persons availing themselves of instruction) for the purpose of meeting child care costs where the instruction is

Provided pursuant to—

(a) section 63(1)(a) of the 1968 Act; or

(b) section 63(1)(b) of the 1968 Act and where the resident is employed, or has it in contemplation to be employed, in an activity involved in or connected with a service which must or may be provided or secured as part of the health service.".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

2 Tachwedd 2004

(**5**) 1968 p.46. Mae adran 63(6) yn darparu i'r Gweinidog dalu ffioedd a dyroddi grantiau mewn perthynas â hyfforddi'r sawl a gyflogir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, neu sy'n ystyried cael ei gyflogi ganddo, ac mae is-adran (6)(b) yn caniatáu talu lwfansau teithio a lwfansau eraill i'r sawl sy'n derbyn hyfforddiant. Datganolwyd pwerau'r Gweinidog o dan y Ddeddf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**6**) 2004 p. 10.

(**5**) 1968 p.46. Mae adran 63(6) yn darparu i'r Gweinidog dalu ffioedd a dyroddi grantiau mewn perthynas â hyfforddi'r sawl a gyflogir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, neu sy'n ystyried cael ei gyflogi ganddo, ac mae is-adran (6)(b) yn caniatáu talu lwfansau teithio a lwfansau eraill i'r sawl sy'n derbyn hyfforddiant. Datganolwyd pwerau'r Gweinidog o dan y Ddeddf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**7**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau pellach i Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992 ("y Prif Reoliadau").

Mae'r Prif Reoliadau yn pennu sut y mae awdurdodau lleol yn asesu gallu person i dalu am y llety y mae awdurdodau lleol yn ei drefnu o dan Ran III o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948.

Mae rheoliad 3 yn diwygio'r Prif Reoliadau drwy gyflwyno modd o ddiystyru incwm o ran taliadau tuag at gost gofal plant o dan adran 63(6)(b) o Ddeddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd 1968 a wneir i breswylydd sydd o dan hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth iechyd, yn rhinwedd y trefniadau a wneir o dan yr adran honno.

Mae rheoliad 4 yn darparu i'r un taliadau gael eu diystyru fel cyfalaf, a hefyd yn cyflwyno modd o ddiystyru cyfalaf o ran taliadau a wneir o dan adran 2 neu 3 o Ddeddf Taliadau ar Sail Oed 2004.